Ken MacQuarrie
Cyfarwyddwr y BBC ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau

cc. Rhodri Talfan Davies
Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales

---

Dyddiad | Date: 27 Mai 2020

Pwnc | Subject: ***BBC Breakfast* a bwletinau newyddion o Gymru**

Annwyl Ken,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Ebrill 2020. Cafodd y llythyr hwn ei drafod gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ei gyfarfod ar 12 Mai.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon eich bod yn cyfeirio at newyddion cenedlaethol Cymru fel newyddion lleol ddwywaith yn eich llythyr.

Hoffem atgoffa'r BBC bod Cymru yn genedl, sydd â deddfwrfa a llywodraeth ei hun. Caiff Gymru ddeddfu a phennu polisi ei hun ynghylch COVID-19, ac, fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn trywydd gwahanol wrth fynd ati i lacio'r cyfyngiadau symud o'i chymharu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Gyda demograffeg wahanol a chyfyngiadau symud gwahanol ar waith mewn rhannau gwahanol o'r DU, mae'n hollbwysig bod y cyhoedd yn cael gwybodaeth gywir a pherthnasol am y feirws a'r rheolau sy'n gymwys iddynt.

Felly, rydym yn galw ar y BBC i wella'r ffordd y mae'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Gallai cam-adrodd ynghylch materion datganoledig, neu beidio ag adrodd o gwbl hyd yn oed, arwain at ganlyniadau difrifol, ac mae'n bwysicach nag erioed bod y bwletinau newyddion a ddarlledir gan y BBC yn adlewyrchu datganoli. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, ni allwn fod yn hyderus bod y newyddion a gaiff pobl Cymru yn ystod *BBC Breakfast* yn adlewyrchu'n gywir yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir,

**Helen Mary Jones AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg |We welcome correspondence in Welsh or English.